

CYNGOR CYMUNED LLANLLECHID LLANLLECHID COMMUNITY COUNCIL

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
Clerk and Chief Financial Officer

Donna Watts

01248 602131

CyngorLlanllechid@ogwen.org

26 Stryd Fawr

Bethesda

Gwynedd

LL57 3AE

**Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol a gynhaliwyd yn Neuadd Talgai, Llandygai
ar nos Iau 8 Chwefror, 2018 am 1900**

1. PRESENNOL:

Ward Llanllechid Isaf

Y Cyngorydd Evan Jones

Y Cyngorydd Alun Thomas

Y Cyngorydd Megan Tomos

Y Cyngorydd Geraint Hughes

Y Cyngorydd Margaret Fernley

Y Cyngorydd Myfanwy Jones

Ward Llanllechid Uchaf

Y Cyngorydd Jên Morris

Y Cyngorydd Kevin Williams

Y Cyngorydd Dafydd Jones

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd y Cyng. Dafydd Jones.

2. Ymddiheuriadau gan y Cyng. Wyn Bowen Harris.

3. Parch. John Matthews

Daeth y Parchedig draw i'r cyfarfod i drafod mynwent Llanllechid. Eglurodd bod dim arian ar gael i drin y fynwent ers i'r eglwys gau yn 2000. Adroddwyd ei fod ar hyn o bryd yn chwilio am arian i drin y coed ywen a diolchodd i'r Cyngor am y gwaith oedd wedi ei wneud yn y fynwent dros y blynyddoedd diwethaf. Trafodwyd Cronfa DEGWM fel ffynhonnell bosib o arian ar gyfer prosiect yn y fynwent. Y Clerc i ymchwilio fwy am hyn. Diolchwyd i'r Parch. am ddod i drafod gyda ni.

4. Cyng. Dafydd Meurig

Diolchodd am y gwahoddiad i'r cyfarfod ac addawodd i fynychu mwy o'n cyfarfodydd. Esboniodd y Cyngorwyr bod dim digon o wybodaeth yn dod i'r Cyngor o'r Bartneriaeth. Eglurodd Dafydd Meurig mai cerbyd i'r 3 Cyngor Cymuned yw'r Bartneriaeth a bod croeso dod a unrhyw syniadau ymlaen drwy cyfarfod y Bwrdd. Trafodwyd y telerau newydd ar gyfer y cytundeb clericio.

5. Cofnodion

Penderfynwyd derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Ionawr 2018.

6. Materion yn codi o'r cofnodion

Arriva- Y Cyngor yn anhapus gyda'r broses ymgynghori. Y Cyng. Megan Tomos wedi ysgrifennu at y Cyngor. Dafydd Meurig a Paul Rowlinson, ac hefyd at Sian Gwenllian a Hywel Williams AS.

Palmant Tan y Lôn at 'Gypsy Corner'- adroddwyd bod y palmant o Tal y Bont wedi ei glirio, ond bod gwaith dal i'w wneud. Y Clerc i gysylltu gyda Cyngor Gwynedd i ddiolch am wneud y gwaith hyd yn hyn ac i drefnu cyfarfod ar y safle gyda'r Cyngor. Geraint Hughes a Alun Thomas, cyn gynted a bo modd.

Eglwys Llan- y llwybr cyhoeddus ger yr eglwys wedi dirywio. Dim ymateb wedi dod gan Gyngor Gwynedd hyd yn hyn. Y Clerc i gysylltu unwaith eto.

System atal-llifogydd – cais wedi ei wneud o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth am holl gostau'r system.

Cais Cynllunio Parc Cenedlaethol-penderfynwyd ysgrifennu bod y Cyngor yn siomedig gyda'r amser i ymateb i'r cais, gan fod gwyliau'r Nadolig yn ymharu ar hyn.

7. Taliadau

Awdurdodwyd y taliadau canlynol:

Cyngor Gwynedd-costau etholiad	£244.00
Neuadd Talgai	£25.00

8. Gohebiaeth

Cyflwynwyd- llythyr gan Partneriaeth Ogwen-manylion am y cytundeb Clercio a Datblygu Cymunedol. Penderfynwyd bod y Cyngor yn hapus i dderbyn y telerau newydd.

Cyflwynwyd-e-bost gan Llywodraeth Cymru-cynigion i fynd i'r afael â throeddu a pherfformiad gwael yn y sector gwastraff. Penderfynwyd bydd pawb yn ymateb fel unigolion.

Cyflwynwyd- e-bost gan Airfields of Britain Conservation Trust drwy law Clerc Cyngor Dinas Bangor ynglŷn a hen faes awyr Rhyfel Byd Cyntaf ger Aber Ogwen.

Penderfynwyd byddai'r Cyngor yn hoff o gael gosod y plac wrth ffin Traeth Lafan. Y Clerc i wneud fwy o ymholiadau.

Cyflwynwyd-e-bost gan Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru-arolwg o'r trefniadau etholiadol ar gyfer Sir Gwynedd. Penderfynwyd i'r Clerc anfon sylwadau'r Cyngor am y newidiadau yn y dyffryn. Yn y cynigion drafft byddai Bethesda yn cael 3 cynghorydd, felly awgrymir i'r ward gael ei rannu mewn 3 gyda cynghorydd i bob ardal, yn hytrach na 3 cynghorydd i gynrychioli un ardal mawr.

Cyflwynwyd- llythyr gan Cynllun Llesiant Gwynedd a Môn-holiadur ymgynghoriad cyhoeddus. Y Clerc i lenwi'r holiadur.

9. Adroddiadau gan gynrychiolwyr

Dim i'w adrodd.

10. Rhoddion

Trafodwyd y rhestr ceisiadau. Penderfynwyd ar y swm y byddai pob mudiad yn ei dderbyn.

Cylch Meithrin Llanllechid £100

Llais Ogwan	£100
Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd	£100
Clwb Henoed Llanllechid	£50
Cwmni Drama'r Llechen Las	£50
Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen	£50
Clwb pêl-droed Mynydd Tigers	£100
Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen	£100
Siop Ogwen	£50
Ysgol Llanllechid	£100
Neuadd Talgai	£100
Marie Curie	£50
Gorymdaith Gwyl Dewi	£50
Cyngor ar Bopeth	£50
Nant Ffrancon Brownies	£50
Clwb Rygbi Bethesda	£100

12.Penderfyniadau Cynllunio:

NP3/21/14B

2 Pencarreg, Nant Ffrancon

Trosi a newidiadau i'r tŷ i greu dau uned llety hunan-arlwygo tymor byr. Adeiladu sied storfa bren a decin pren yn yr ardd gefn.

Dim penderfyniad hyd yn hyn

Ceisiadau Cynllunio:

Dim ceisiadau i'w ystyried.

13. Materion Brys

Tyllau yn y lôn- ar Lôn Ddŵr o dan y pont rheilffordd ac ar y ffordd fyny at y Llechan. Hefyd ar y ffordd rhwng Bryn Eithin a Bronydd Isaf, yn enwedig wrth Bowls a Llwyn Penddu. Y Clerc i hysbysu Cyngor Gwynedd.

Chwarel y Bryn- adroddwyd bod defaid wedi marw wedi cael eu dympio. Y Cyng.

Kevin Williams a'r bugail wedi cael gair gyda'r perchennog.

Hefyd mae angen hysbysu Stad Penrhyn bod rhywun wedi taflu'r cylch cynorthwydd bywyd i mewn i'r llyn.

Sêl wyna- swm dal yn ddyledus gan un o'r prynwyr. Y Clerc i anfon nodyn atgoffa.

Bin halen- wrth bont Ceunant yn Nant Ffrancon. Y Clerc i ofyn wrth Cyngor Gwynedd i'w lenwi cyn gynted a bo modd.

Cae chwarae Tal y Bont- angen gofyn wrth Partneriaeth Ogwen i hel syniadau ar gyfer hubu defnydd o'r cae chwarae.

Tan y Marian- y polyn wrth y tro yn gwyro i'r ffordd. Y Clerc i hysbysu Cyngor Gwynedd.